# DINESYDD

## Mawrth-Ebrill

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1982

RHIF 85

# Y CYFARFOD CYHOEDDUS

Y DINESYDD

CYFARFOD CYHOEDDUS

FESTRI DEWI SANT

am 7.30

NOS IAU, 1 EBRILL, 1982

Gobeithir y bydd pob Capel, Eglwys a Chymdeithas yn anfon CYNRYCHIOLYDD i'r cyfarfod pwysig hwn.

CROESO I BAWB

DEWCH YNO I GEFNOGI'CH PAPUR BRO -

Y cyntaf yng Nghymru.

Yn awr ac yn y man clywir rhai pobl yn cwyno, ac eraill yn awgrymu'n garedig ddigon fod angen hyn a'r llall yn Y DINESYDD. Papur y crachach, medd ambell i gymwynaswr llafar; papur yr hynafiaid, medd rhai o'r ifainc pybyr; hen bapur dwl, medd y disglair ei ddoniau ond prin ryfeddol ei gyfraniad. Ac ymlaen, ac ymlaen. Y rhyfeddod diddiwedd yw nad yw'r beirniaid hyn yn gwneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa. Y gwir plaen yw fod y newyddiadur bach hwn â'i ddalennau yn llydan agored i dderbyn cyfraniadau oddi wrth bob copa walltog ymhlith Cymry Caerdydd a'r cylch sydd yn awyddus i gyfoethogi y bywyd Cymraeg. Dyna'r rheswm dros ei fodolaeth; hynny, a dim arall.



Mr. Maxwell Evans y tu allan i Maxwell House. Gweler tudalen 3.

O gymharu â llawer o'r broydd eraill digon gwantan yw diddordeb cymdeithasau Cymraeg yr ardal hon yn eu newyddiadur. Ni all dyn lai na rhyfeddu at ymroddiad rhai unigolion ynglŷn â chadw'r papur ar ei draed ond yn wir, yn wir, mae angen atgyfnerthiad a gwaed newydd.

Dyma gyfle yn awr i chwi sydd y funud hon yn digwydd darllen hyn o lith i ymrwymo i gynorthwyo Y DINESYDD, yn ôl eich dawn a'ch gallu. Dewch i'r cyfarfod yn Festri Eglwys Dewi Sant - a diolch i swyddogion hael yr eglwys honno am eu parodrwydd i ganiatau defnydd o'r adeilad inni - er mwyn gweld beth a ellwch ei wneud i gynnal y newyddiadur hwn a arloesodd y ffordd yn hanes papurau bro Cymru. Mae eich angen arno yn siwr i chi. Deued y beirniaid, er mwyn iddynt fedru gosod eu nod eu hunain ar ei gynnwys a'i ffurf; y mae croeso i bob gweithiwr. A deued y caredigion hynny, yn ifanc a hen, i osod eu hysgwyddau dan y baich.

Yn arbennig iawn, deued cynrychiolydd neu ddau o bob cymdeithas Gymraeg ffurfiol sydd yn y brifddinas a'i chyrion. Mae angen swyddogion a phwyllgorwyr newydd heb sôn am sgrifenwyr, tynnwyr lluniau a phobl sgilgar, hirben a all sicrhau rhagor o gyllid i'r fenter. Ond uwchlaw popeth arall y mae angen cefnogwyr ewyllys dda.

# Y CALENDR

Mawrth

10, Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 8 o'r gloch Noson i Ddathlu Gŵyl Ddewi.

12, Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, Festri Bethel, Heol Penlline, 7.30 p.m. Dathlu Gŵyl Dewi, Gwraig Wadd: Miss Ann Rosser.

12, Gwener, 7.30 p.m. yn Nhŷ'r Cymry. 'Atgyfodiad Crist'. Anerchiad gan Gwynn Williams (Aberafan) dan nawdd yr Eglwys Efengylaidd.

12, Gwener, Noson 'Mwy o Firi Mawrth', adloniant, twmpath, bwffe, bar, Neuadd Ysgol Glan Taf, 8 p.m. - 12 p.m.£2.50 Dan nawdd Ysgol Melin Gruffydd.

13, Sadwrn, Ffair Sborion Plaid Cymru, yn Neuadd St. Saviour's, Sblott, 10 o'r gloch.

21, yn Theatr y Sherman am 8 o'r gloch, TAITH 700 - Dafydd Iwan ac Ar Log. Tocynnau: £2.50. Ar gael o'r Theatr - ffôn 30451.

19-21, Cwrs Penwythnos i Ddysgwyr o bob oed a phob safon. Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, Cysyllter â John Albert Evans, Caerdydd 754559

16-20, yng Nhanolfan Chapter, Manawydan gan Brith Gof a Chwmni Cyfri Tri.

20, Noson Ffrangeg, Canolfan yr Urdd, Cysyllter â'r Ganolfan, Caerdydd 36201

29, yng Nghanolfan Chapter Oes 'ma Bobol, sioe newydd Theatr Bara Caws 2 berfformiad yn unig

29, Merched y Wawr, Festri Minny St., 7.30 p.m. Recordio 'Dewch am Dro' gyda Mr. Alun Williams o'r BBC.

Ebrill

2, Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg a Gwent, Canolfan yr Urdd, 7 p.m.

2, Gwener, Noson yng nghwmni Dic Jones y Prifardd a'r Ffermwr, yn Ystafell Fwyta'r Amgueddfa Werin, San Ffagan, Croeso i bawb.

3, Côr Canolfan Caerdydd, yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, nos Sadwrn, 7.30 p.m., £1.50, Y Greadigaeth (Haydn).

4, Cyngerdd Heol y Crwys er budd yr anabl. Cynhelir yn Eglwys St. Marc, Gabalfa, 8 p.m. Dyma'r gyngerdd ohiriwyd yn Rhagfyr oherwydd y tywydd. Mynediad £1, Plant 50c.

5, Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Mr. George P. Owen (BBC)

7, Cymorth Cristnogol - Cyfarfod Arbennig gan Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn y Tabernacl am 7 o'r gloch. Anerchiad gan y Parch D.R.Thomas, Aberystwyth - Adroddiad Brandt).

9, Heol y Crwys, Gwasanaeth y Cymun ar fore'r Groglith am 10.30 a.m. Arweinir gan y Parchedig H.R.Davies.

15-17, yn Theatr y Sherman, Trystan ac Esyllt - Cwmni Theatr Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd.

16, Cymrodorion Caerdydd, yn Festri Eglwys Dewi Sant, am 7.15. Darlith gan Mr. Hywel Teifi Edwards; Testun: 'Y Ddrama Gymraeg, 1913-14'.

Mai

3, yn y Sherman, Trebor Edwards a Chôr Godre'r Garth.

8, nos Sadwrn, rhwng 6 ag 8 o'r gloch yng Ngerddi Sophia. NOFIO NAWDD, Yr elw i'w rannu rhwng y Ganolfan, Heol Conwy ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch 1985.

8-15, Gŵyl Feithrin. Manylion o unrhyw ysgol feithrin neu Avril Jones, Caerdydd 757514

10, Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Mr. Phylip Rosser

16, Cymrodorion Caerdydd, Gwibdaith, dan ofal y Parch Ifor Rees.

Mehefin

19, Ffair Haf Ysgol Melin Gruffydd, yn yr ysgol.

26, Ffair Haf Glantaf.

---

Annwyl Olygydd,

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERDYDD A'R CYLCH

Yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd fe geir manylion o gynllun cyfamodi'r Eisteddfod. A gaf i apelio at bawb a olygai gefnogi'r Eisteddfod yn ariannol wneud hynny ar ffurf cyfamod. Meddyliwch! Am bob punt a dderbyniwn gennych chwi fe dderbyniwn 43 ceiniog ychwanegol oddi wrth awdurdodau'r Dreth Incwm! Y cyfan sydd raid i CHWI wneud yw rhoi'r manylion ar y weithred o gyfamod a'r archeb banc a'u hanfon ataf i!

O dro i dro, fe gyhoeddir rhestr o enwau cyfamodwyr yr Eisteddfod yn y Dinesydd ac fe arddangosir rhestr o'r enwau yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy; ac wrth gwrs, fe gydnabyddir bob rhodd yn rhaglen yr Eisteddfod.

Fe fydd yn rhy hwyr i gyfamodi ar ôl Mehefin eleni, felly gwnewch hynny yn awr. Trwy fod yn Gyfamodwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch fe fyddwch wedi cyfrannu'n ariannol yn y modd mwyaf effeithiol bosibl.

Ni ddisgwylir unrhyw gyfraniad ariannol arall gennych tuag at yr Eisteddfod.

Yn ddiffuant,

GLYN JONES,
Ysgrifennydd Ariannol,

---

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Mai at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (Tel. 753625) erbyn Ebrill 17.

**COLOFN**
**Shân Emlyn**

Dyna i chi fusnas ydy prynu a gwerthu tŷ. Mae hyn yn brofiad diarth iawn i mi gan ein bod ni wedi byw yn yr un tŷ am ymron i ugain mlynedd a stôr o atgofion a phrofiadau o fewn waliau Coed y Pry. Bron nag ydwi'n teimlo fy mod yn bradychu ffrind wrth ystyried ei werthu, ond yn dadlau efo mi fy hun nad gwiw ymserchu mewn brics a mortar.
Rydwi wedi llnau a thacluso mwy yn yr wythnosau dwytha 'ma na wnes i erioed. Mae hi'n dipyn o straen i gadw pob man yn daclus, yn enwedig gan nad yw gweddill y teulu mor gydwybodol nag yn ymwybodol o lanast. Ond rhaid ceisio gofalu bod y tŷ yn daclus drwy'r amser, canys ni wyddoch na'r dydd na'r awr y daw darpar brynwr heibio. Hen deimlad od ydy cael dieithriad yn trampio trwy'ch tŷ chi, ac yn sbecian i bob twll a chornel. Teimlad yr un mor od ydy gwneud yr un peth wrth chwilio am dŷ i ninnau. Cael fy hun yn gwenu'n ddel ac yn deud "neis iawn" wrth fynd o stafell i stafell tra fy meddwl yn gweithio fel fflamia ac yn holi fy hun "fasa'r peth a peth yn ffitio'r gornel yna" "oes 'na damprwydd" "fedrai ddychmygu byw fan hyn" "wnai hwn Goed y Pry"?
Syndod oedd clywed Owen yn holi ym mhob tŷ am yr ardd, ansawdd y pridd a beth oedd yn cael ei dyfu yn yr ardd? Mewn ymron i chwarter canrif o gyd-fyw chefais i erioed yr awgrym lleia fod ganddo unrhyw ddiddordeb mewn garddio. Tybed yn 'i henaint i fod o'n bwriadu troi yn Glay Jones i Goed y Pry. Sgersli bilîf!
Ddwywaith dyma feddwl "fe wnai hwn Goed y Pry", ond cam gwag y ddeudro. Pwy ŵyr ein hynt na'n helynt erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r Dinesydd allan. Mae ystyried newid aelwyd yn gyffrous a tydy meddwl am sgwrio a chwysu yn poeni fawr iawn arnai ac mae 'na her mewn symud tŷ a throi y tŷ yn aelwyd. "Newid aelwyd pob yn eilddydd" - na dwi'm yn meddwl. Ond lle bynnag y byddwn ni bydd raid ceisio gofalu ein bod yn symud "i gornel gynnes - lle bydd nefoedd fach i dri" - neu yn ein hachos ni i bedwar. Cewch yr hanes mis nesa!

# YMDDEOLIAD MACS

Dymuna'r Dinesydd bob dymuniad da i Mr. Maxwell Evans, Penarth, ar ei ymddeoliad o'i waith fel uwch-ymgynghorydd ieithoedd i awdurdod addysg Morgannwg Ganol. Bu'n athro yn yr Eglwysnewydd cyn cael ei apwyntio'n drefnydd Cymraeg i'r hen Forgannwg a chofiwn amdano fel un o'r brodyr fu'n ymladd yn galed i sefydlu Ysgol Gymraeg Bryntaf.

Ni fydd Mr. Evans yn segur ar ôl ymddeol am ei fod yn bwriadu gweithredu fel curad i ficer eglwys Dewi Sant. Pob llwyddiant iddo yn y gwaith pwysig hwn.

Dyma rai o'r englynion a ysgrifennodd ei gyfaill Mr. Islwyn Jones iddo yn deyrnged ar ei ymddeoliad.

Rhoes i'n hardal ei galon
- a'i ynni
I heniaith yn ffyddlon.
Ei harweinydd, llywydd llon
A'i gwas ydoedd yn gyson.

Un a'i ysbryd yn llawn asbri
- un cu
Cywir ei haelioni.
Ei sylwadau ffraeth a ffri
Yn enaint a balm inni.

Bellach cyngor a'i bwyll-
gorau - giliodd
O'r golwg, - a'r dadlau,
O heddiw llawn fo'i ddyddiau
O hoen haf i'w lawenhau.



Maxwell Evans, Islwyn Jones a J. Watkin Jones, tri a ymddeolodd yn ddiweddar.

## YSGOL YN DATHLU DOD I'W HOED

Ar dd dd Gwener, Ionawr 29, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Ysgol Ifor Bach, Senghennydd i ddathlu penblwydd yr ysgol yn unar-hugain oed. Drwy weled-igaeth a phenderfyniad Cymry blaenllaw Caerffili sefydlwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghwm Rhymni mewn ystafell yn Ysgol y Gwindy ar Ionawr 30,1961, gydag unarddeg o ddisgyblion. Cymaint fu'r cynnydd mewn rhifau oherwydd sêl ac ymdrech yr arloeswyr cynnar megis Mr. a Mrs. H.P. Richards, Mr. a Mrs. Gwilym Davies a Mr. a Mrs. Tilley fel y bu'n rhaid gadael yr ysgol Saesneg yng Nghaer-ffili a symud i adeilad gwag yn Senghennydd. Yn ddiweddarach sylweddolwyd na fyddai'r adeilad yma yn ddigon mawr i ddarparu addysg ddwyieithog i'r holl blant y mynnai eu rhieni iddynt eu mynychu. Felly fe holltwyd yr ysgol yn ddwy a sefydlwyd Ysgol Gymraeg arall yng Nghaer-ffili. Erbyn hyn mae rhyw 600 o blant yn y ddwy ysgol yn ogystal ag ysgolion Cymraeg eraill yn Rhymni a Bargoed ac eleni gwelwyd agor Ysgol Gyfun Ddwyieithog newydd yn y cwm yn Aberbargoed ac i'r ysgol hon yn hytrach nag i Ysgol Gyfun Rhydfelen fydd plant yr ysgol yn mynd o hyn ymlaen.

Gwahoddwyd rhai o sylfaen-wyr yr ysgol i'r gwasanaeth a bu i'r cyn-brifathrawes, a fu'n y swydd am dros ugain mlynedd, sef Mrs. Moyra Davies, annerch y plant a thorrwyd cacen arbennig i ddathlu'r achlysur. Bydded i'r ysgol fwynhau yr un llewyrch a llwyddiant yn ystod y blynyddoedd sydd o'i blaen.

G.P.Rowlands.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Rhown y golofn gyfan y tro hwn i gywydd crefftus gan John Wood. Cawsom y pleser o wrando ar ei wraig, Kathleen, yn ei ddarllen drosto yn Siambr Lên yr Ŵyl Gerdd Dant ym mis Tachwedd. Diolch am gennad i'w godi i'r golofn.

CROESO HAF I'R WENNOL

I'n tir swyn, troes y wennol
Ar adain wib o'r De'n ôl;
Gwyrddwedd y Gogledd a gyrch,
At hafaidd luniaidd lennyrch.
Anhygoel, uwchben eigion
Dros bellter, yw hoywder hon;
Â'i dawn o ddibaid ynni,
Arwres heuldes yw hir:
Un â gwefr a'i gwna'n gyfryw
Â rhamant o beiriant byw.
Pa ddyn na fapiodd unwaith,
Mewn dychymyg, debyg daith
At wynfa haul ddiwahardd
Lle câi nawdd mewn llecyn hardd?
Ond ni ddaeth, wrth loywdraeth li,
Ddiwrnod pan fentrodd arni.
I'r wennol daw greddfol gri:
Cwŷs sydd, a neges iddi,
Am fynd, lle twyma haf ir
I'w bêr rawd yn ein brodir.
Cyrchodd draw, heb fraw, ar frys,
Haf-lennyrch y Fêl Ynys,
A chael, er ei hymdrech hi,
Nid clydwch, ond caledi:
Ni luniwyd hin eleni
At heulwen ei hangen hi.
Rhoed dail ar wead dolydd,
Ac irder at geinder gwŷdd;
Ond ias rhew hyd si'r awel
A gaeai faeth sug o fêl,
A dug heth dros liwdeg haf
Ôd yn gawod fel gaeaf;
Llenni brith, yn llawn brathiad,
A dduai lamp y werdd wlad;
Eira mân oedd yn trymhau
Fel adwyth ar wyw flodau.
Dyrys oedd i aderyn
Hedeg y wybr trwy fyd gwyn;
Lluwch a yrrai'r llach erwin
Dros darged y pryfed prin;
Oerai awch y rhew-wreichion
Rin y wledd i'r wennol hon;
Ni châi ennill, i'w chynnydd,
Ei helfa, na da o'r dydd.
Er nychdod y cawodau,
Haf a'i haul fydd yn cryfhau;
Daw dadmer yn dyner don
Ar dwf ir, â diferion;
Drannoeth, cyfyd i'r wennol
Hinon haf i wenu'n ôl.

John Wood


Chwi feirdd eraill, cofiwch y golofn da chwi. Mae'r ffeil yn denau ar hyn o bryd. Y cyfeiriad yw 'Penmaen', 31 Heol Don, Yr Eglwys Newydd. CF4 2AR.

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Ann Beynon ar gael ei phenodi yn Swyddog Cyhoeddusrwydd gyda S4C. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ddechrau Mawrth.

---

Llongyfarchiadau i Mr. John Elfed Jones, King George Vth Drive, ar ei benodi yn Gadeirydd newydd Awdurdod Dŵr Cymru.



---

Llongyfarchiadau i Miss Elen Rhys o'r Barri ar ei phenodi yn Swyddog Cymraeg i Oedolion yn y Cyd-bwyllgor Addysg.

---

Croeso i Ddinas Powys i Mr. a Mrs. Emrys Wyn Jones, brawd Nia Hall Williams. Mae wedi ei benodi yn Gofrestrydd y Brifysgol.

---

Llongyfarchiadau i Catrin Lewis, Ysgol Glantaf ar ei dyweddiad â Gari Williams, Ysgol Rhydfelen.

---

Llongyfarchiadau i Mari Emlyn Edwards ar gael ei derbyn i Goleg Drama Rose Bruford, Llundain. Bydd yn dechrau ar ei chwrs ym mis Hydref.

---

Llongyfarchiadau i Mr. Wyn James, Y Barri, ar gael ei benodi yn Weinyddwr Cylchdaith Cymru a Chaer y Llysoedd Barn.

---

Llongyfarchiadau i Catrin Haf Williams a Siân Boobier *y ddwy yn ddisgyblion yn* Ysgol Llanhari ar ennill Ysgoloriaethau i Goleg y Brifysgol Aberystwyth.

---

COFIWCH AM Y CYFARFOD CYHOEDDUS, Gweler Tud. 1.

# GWRHODRI GWYN

PILL O'R MAES PELDROED

Wedi hirlwm hir y gaeaf
Braf cael eto droedio'r maes
I gicio'r gwynt ar bnawn dydd Sadwrn
Mewn trowsus gwyrdd heb fod yn llaes.
Gŵyr cyhyrog Clwb y Cymric
A'u cymdeithion o Aelwyd yr Urdd
Rhai yn dew a'r lleill yn dewach,
Pawb yn 'fit' yn eu gwahanol ffyrdd.
Ddim wedi chwarae ers mis Tachwedd
Tywydd garw welwch chi,
Rhew ac eira a phwdin Dolig
A 'Dark' a 'Light' yn ôl y sir.
Y 'stafell newid yn fwy na gorlawn,
Dewis tro i gymeryd gwynt,
Y trowsus bach yn llai nag arfer,
Y taeru a'r rwdlian jest fel cynt.

Mentro i'r Rhymni y Sadwrn cynta
Toriaid yno yn cicio'r bel,
Rhedeg a rhedeg a rhedeg yn ara,
Doedd dim yn tycio, dim yn fêl.
Dim Dewi chwaith i arbed goliau
Der y cawr oedd rhwng y pyst,
Ond er yr ymdrech ddewr o'r cychwyn,
Nid oedd lwc i'w gael am chwys.
Tair i ddim ar y chwiban olaf
Pawb a'i ben yn isel iawn,
Beth oedd pawb yn blydi ddisgwyl
A'r stumogau 'na mor llawn?
Eynon dew a Rheon foliog
Gareth Huws ein tad ni oll,
Wyn ac Elwyn a Hefin yntau,
Rob a Huw fel defaid coll.

Maes Pontcanna'r wythnos wedyn
Gêm yn erbyn y Santes Fair
Heb Ian Paisley na'r Pab o'n plaid ni
O draed moch, fe aeth yn ffair.
Sgoriwyd unwaith, yna eilwaith,
Tair i ddim cyn hanner awr,
Caewyd y llifddorau wedyn
Neu mi fyddai'n sgôr go fawr.
Llwyddwyd hyd yn oed i rwydo
Unig ateb gŵyr yr iaith,
Rhodri'n sgorio cyn y diwedd
Ond rhy hwyr, 'roedd hynny'n ffaith.

'Roedd gwaeth i ddod y Sadwrn wedyn,
Y tro hwn â Phadrig Sant,
Eisiau eu gyrru i gyd i Enlli
Y nhw, eu cŵn a'u bali plant.
Wedi ymdrech fwy na'r arfer
Wedi llwyddo i agoshau,
Y nhw a lwyddodd, Duw a'n helpo,
Dwy i ddim, a'r drws yn cau.
Hanner ffordd trwy'r tymor bellach
Hanner ffordd at fynd i lawr
I waelodion yr ail adran,
Rhaid fydd tynnu'n bysedd nawr.


Ond mae llegedyn o rhyw obaith
O gilfachau'r Aelwyd fach;
Wedi chwarae tair eleni
Dwy fuddugoliaeth yn y sach.
Rhaid ail edrych ar y patrwm
Tybed beth yw'r ateb sy
"Da chi rhy hen", medd Bags yn dalog
"a ma isho deud, a deud yn hy"
Whitchurch Villa a chwalwyd gynta
Tair i un i'r hogia, grêt.
Cen Cartŵn a Gwyn yn rhwydo
(Mae Cen bron iawn yn thirty êt).
Colli'r cail o sgôr go debyg,
Ond ta waeth rhaid brwydro mlaen
Y Sadwrn wedyn ym mis Chwefror
Unwaith eto roeddem ar y blaen.
Chwipiwyd tin rhen Avenue Hotspur
Chwalwyd yn ufflon eu breuddwydion ffôl,
Pedair i dair ar y chwiban olaf
A Martin yntau'n cael tair gôl.
Hwn, y gŵr a fu ym Mrwsel
Cyffredin iawn yw'r farchnad fawr,
Ei goesau bellach yn llawn 'vino',
Dim gwaed sy'n llifo drwyddo 'nawr.
Huw a sgoriodd y gôl arall
Un o'r ifanc yn y criw;
Mae Huw Eurig, Mel ac Eifion
Bellach yn tyfu'n aelodau triw.

A beth am y dyfodol
Oes ateb gennych chi?
Cewch wisgo lliwiau'r cewri
A thrafod maint y ffi.
Mae angen ysbrydoliaeth
I roi yr iaith ar waith,
Ar feysydd gwyrdd Pontcanna,
Rhaid ennill ar y paith.

Rhodri Gwyn Jones a'i Cant.

---


**************************



BWTRI'R CASTELL, SAIN FFAGAN.

COGYDDES/COGYDD - yn eisiau o Ebrill 1af tan ddiwedd Medi i baratoi bwydydd Cymreig eu naws yn y bwyty uchod. Ceisiadau trwy lythyr yn nodi cymwysterau a phrofiad i 30, Chargot Road, Llandaf, Caerdydd.

**************************


---

UNED YMCHWIL IEITHYDDOL GYMRAEG
COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD

IAITH, TAFODIAITH A CHYMDEITHAS

CYNHADLEDD UNDYDD

Sadwrn, Mawrth 27ain, 10 a.m. - 4.30 p.m.

Adeilad Peirianneg, Heol Casnewydd


Tâl Cynhadledd: £1 (yn cynnwys coffi a bisgedi), myfyrwyr a disgyblion ysgolion: 50c.

Ymholiadau pellach i: Uned Ymchwil
Ieithyddol Gymraeg,
18 Ffordd y Gogledd,
Caerdydd, CF1 3DY.


****************************

YN EISIAU : Piano mewn cyflwr da am bris rhesymol.

Ffôn - Stephens 753304.



****************************

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERDYDD A'R CYLCH 1985

Eisteddfod Caerdydd a'r Cylch fydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1985, ac mae'r gwaith o godi cronfa wedi dechrau. Penderfynwyd canolbwyntio ymdrechion y misoedd nesaf i ddenu Cyfamodwyr i'r Eisteddfod hon.

Pa beth a olygir wrth fod yn gyfamodwr?

Hanfod cyfamodi yw fod person yn addo cyfrannu swm penodol o arian dros gyfnod o bedair blynedd o leiaf. Os yw'r person hwnnw yn talu treth incwm, yna mae'n dilyn ei fod wedi talu'r dreth ar ei gyfraniad hefyd. Gan mai elusen yw'r Eisteddfod gall hawlio ad-daliad o'r dreth incwm hwn oddi wrth awdurdodau'r Dreth Incwm.

Pa faint yw gwerth cyfamod i'r Eisteddfod?

Gan fod yr Eisteddfod yn gallu hawlio ad-daliad o 43 ceiniog am bob punt o gyfraniad yna fe welwch mor werthfawr yw cyfraniad trwy gyfamod. Dyma enghreifftiau pellach o werth cyfamodau:-

| Cyfamod | Cyfanswm y cyfraniad ar ôl hawlio ad-daliad o'r Dreth Incwm. |
|---|---|
| £5 y flwyddyn | £28.60 |
| £10 y flwyddyn | £57.16 |
| £1 y mis (£12 y flwyddyn) | £68.60 |
| £5 y mis (£60 y flwyddyn) | £342.88 |
| £10 y mis (£120 y flwyddyn) | £685.72 |

A oes unrhyw fantais arall i'r Eisteddfod?

Fe fydd yn rhy hwyr i gyfamodi ar ôl Mehefin 1982 oherwydd y cylchrediad o bedair blynedd, ac felly, fe fyddwn yn gwybod ym mis Mehefin pa faint fydd y cyfanswm a fydd yn deillio oddi wrth gyfamodau ac yn gallu cynllunio'n unol â hynny.

Os ystyriwch gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch yn ariannol taer erfyniwn arnoch roi eich sylw caredig i'r cynllun Cyfamodi a nodwyd.

Dychweler y ffurflen at yr Ysgrifennydd Ariannol, Glyn Jones, 30 Chargot Road, Llandaf, Caerdydd. Cysyllter ag ef os am unrhyw wybodaeth pellach. (Ffôn: 568800).

Gwerthfawrogwn eich cymorth yn gywir iawn.

Yn ddidwyll,

J.E.Malcolm Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Alun Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

# NODYN O GEFNOGAETH

Annwyl Y Dinesydd,

Braf oedd gweld DINESYDD Chwefror yn rhoi tudalen flaen gyfan i lwyddiant Banc Masnachol Cymru yn ennill statws lawn ar ôl brwydr hir. Ond roeddwn yn siomedig nad oedd yr erthygl yn ANNOG darpar-fuddsoddwyr i gefnogi Julian Hodge.

Fel un o fuddsoddwyr BMC - ac un o'r rhai bwysodd(!) drwy gyfrwng llythyr at Fanc Lloegr i newid ei feddwl - hoffwn dynnu sylw Cymry'r Brifddinas at rhai ffeithiau.

Am flynyddoedd, bum yn bancio gyda un o'r Banciau 'mawr', ond cefais lond bola ar driniaeth 'amhersonol' sefydliadau mor fawr a phrydeinig (sylwer) e.e. y cylchlythyron "Dear Sir or Madam". Fel arbrawf, symudais fy nghyfrif at FMC, ac nid wyf wedi difaru dim. Peth braf yw bod o fewn sefydliad swyddogol cymharol fach (ond sy'n fwy na llawer o fanciau America gyda llaw) a derbyn llythyron sydd wedi eu cyfeirio ataf i fel person.

Mae'n hen arfer gan fanciau America ddychwelyd pob siec a sgrifenwyd gyda'r Adroddiad Cyfrif. Mae BMC yn dilyn y patrwm hwn, a pheth cadarnhaol iawn yw gallu gweld yn union at bwy yr aeth pob siec.

O ran Cymreictod, Caerdydd, Cymru yw Pencadlys BMC, nid Llundain, Lloegr. 'Region' yn unig yw Cymru i'r 'Pedwar Mawr' er gwaethaf ymdrechion diweddar at eu 'Cymreigeiddio'. Erys y ffaith eu bônt yn sefydliadau sylfaenol Seisnig. Tra nad wyf yn honni bod BMC yn Gymreig o ran iaith, ni ellir gwadu bod amcanion Julian Hodge yn glodwiw. Mae nifer o brif swyddogion y Banc yn Gymry Cymraeg, a phe byddai mwy o Gymry Cymraeg yn buddsoddi, a phawb yn tynnu ei bwysau, yna rwy'n siŵr y byddai'n bosibl symud yn bellach gyda Chymreigio BMC o ran iaith.

Yn DINESYDD Chwefror, disgrifiwyd BMC fel "yr unig fanc gynhenid Gymreig". Diddorol iawn yw sylwi gyda pha fanciau mae cymdeithasau a sefydliadau mwyaf 'cynhenid Cymreig' ein gwlad yn cynnal eu cyfrifon.

Yn gywir,

DULAIS RHYS.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

## GWEITHRED GYFAMOD

Yr wyf fi ..................................

o ...........................................

trwy hyn yn cyfamodi i dalu i EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERDYDD A'R CYLCH AR Y

.....................DYDD o ..............

.. ..................bob blwyddyn am bedair mlynedd o'r dyddiad hwn, neu yn ystod fy oes, pa gyfnod bynnag a fyddo'r byrraf, y swm o

.............................................

wedi tynnu ymaith y Dreth Incwm ar ôl y raddfa a fo mewn grym ar y pryd, y swm i'w dalu o'm cronfa gyffredinol o incwm trethedig, fel na fo i mi dderbyn unrhyw fudd personol neu breifat oddi wrth y swm uchod neu unrhyw ran ohono yn ystod y naill na'r llall o'r cyfnodau a nodwyd. FEL TYSTIOLAETH o hyn yr wyf yn gosod fy enw a'm sêl y

..............dydd hwn o ...............,19..

Arwyddwyd, seiliwyd a throsglwyddwyd gan:

.............................................

ym mhresenoldeb

Enw ........................................

Cyfeiriad ..................................

.............................................

Galwedigaeth ...............................

## ARCHEB BANC

Y RHEOLWR

BANC ........................................

CANGEN ......................................

TALER I GYFRIF EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERDYDD A'R CYLCH, CYFRIF CADW 7136638 YM MANC LLOYDS, WINDSOR PLACE, CAERDYDD (30.19.59)

Y SWM O .........................(£ )

YN AWR AC YNA YR UN SWM

* YN FISOL AR Y 1af O BOB MIS

* YN CHWARTEROL AR Y 1af O IONAWR, EBRILL GORFFENNAF A HYDREF

* YN FLYNYDDOL AR Y 1af O ...............

AM BEDAIR MLYNEDD (Y TALIAD OLAF FYDD AR Y ..........................)

LLOFNOD .....................................

ENW LLAWN ...................................

RHIF CYFRIF BANC ............................

CYFEIRIAD ...................................

.............................................

DYCHWELER I GLYN JONES, 30 CHARGOT ROAD, LLANDAF, CAERDYDD

AC NID I'R BANC

# CÔR PHILHARMONIC CAERDYDD

Arweinydd: Alun Guy

Cynhelir Cyngerdd nesaf y Côr ar Fai y 8fed pan fydd artistiaid o'r Cwmni Opera Cenedlaethol yn ymuno â'r Côr i gyflwyno noson operatig. Yr artistiaid yw:

Rita Cullis, Soprano
Peggy Trowman, Contralto
Neville Ackerman, Tenor
Henry Newman, Bass

Maent yn dod gyda chaniatâd y Cwmni Opera gyda Anthony Hose.

Bydd y Côr yn canu corau gan Handel, Wagner, Gounod, Weber, Verdi, Borodin (Prince Igor) ac un neu ddau arall - 14 côr i gyd, yn Gymraeg, Saesneg ac Eidaleg.

## CANTORION CREIGIAU

Er gwaethaf colli pythefnos o achos yr eira mawr, fe gynhaliodd Cantorion Creigiau dri cyngerdd yn ystod mis Chwefror. Bu'r cyntaf ym Mhendoylan, yr ail ym Mhontyclun ac yna un arbennig iawn yng Nghaerfaddon gyda'r elw yn mynd at yr Anabl eu Meddwl.

Yr unawdwyr yn y cyngerdd hwn oedd, Ray Pye, Tenor; Jeff Davies, Bariton, a Mair Roberts, Soprano. Cafwyd Deuawdau gan Ray Pye a Jeff Davies, a Phedwarawd gyda Ray Pye, Jeff Davies, Margaret Oeler ac Enid Davies. Cafwyd eitem hefyd gan y Grŵp Merched.

Roedd y Côr yn canu y Finale, Act 2, 'Force of Destiny', Verdi, a'r Unawdydd oedd Mair Roberts. Arweiniwyd y Côr gan Jane Gordon a oedd wedi gwneud trefniant arbennig o'r gwaith ar gyfer y Côr.

Yn dilyn cafwyd Noson Lawen anffurfiol.

Bydd y Cyngerdd nesaf yn Nhonyrefail ar 30 Mawrth, wedi'i drefnu gan y Gymdeithas Rhieni.

## MERCHED Y WAWR

Mrs. Dewi Watcyn Powell ddaeth atom i'n cyfarfod diwethaf o Ferched y Wawr. Cawsom ddarlith hynod o ddiddorol ganddi ar hanes y Celtiaid yng Nghymru.

Soniodd fel y bu'n rhaid i'r Celtiaid symud o Ddwyrain Ewrop lle roeddynt yn dioddef newyn a gormes dan law tylwythau cryfach.

Gyda help sleidiau dangosodd olion eu caerau drwy Gymru a nodweddion archeolegol y caerau hyn.

Diolchwyd i Mrs. Dewi W. Powell gan Eleri Rogers ac awgrymwyd y buasai'n werthfawr iawn cael llyfr ar hanes y Celtiaid yng Nghymru yn Gymraeg.

# MA'NA PERFFORMIAD O MANAWYDAN

Mae Brith Gof a Cwmni Cyfri Tri wedi dod ynghyd i greu sioe o'r enw MANAWYDAN i'w theithio led-led Cymru, ac ar nos Fawrth, Mawrth 16 i nos Sadwrn, Mawrth 20, am 8 p.m., byddant yn ymddangos yn Theatr Chapter, Caerdydd.

Mae MANAWYDAN yn cymryd fel dechreubwynt un o chwedlau'r Mabinogion, sef 'Manawydan Fab Llŷr'. Golygfa ddiffaith yw golygfa Manawydan : tirlun moel a phedwar unigolyn wedi'u hynysu ynddo. Saif Manawydan, Pryderi, Rhiannon a Chigfa mewn gwagle. Fe gollwyd safle a theulu; rhaid ymfudo a newid ffordd o fyw er mwyn goroesi. Dyna'r argyfwng a geir yn y drydedd gainc. Bu chwedlau'r Mabinogion yn ysbrydoliaeth bwysig i waith Brith Gof yn y gorffennol, ac yma yn y gainc fwyaf ddynol y darganfuwyd sylfaen ar gyfer cydweithio gyda Chwmni Cyfri Tri.

Dyma gyfle i bedwar perfformiwr ddod ynghyd a gofyn: Beth yw gwreiddyn y stori? Pa fath bobl yw'r pedwar a adawyd i grwydro eu gwlad? Wrth ymchwilio'r perthynas rhyngddynt drwy berfformiad sydd ar yr un pryd yn ddwys ac yn ysgafn, yn gorfforol ac yn farddonol, yn weledol ac yn gerddorol, ceisir nid yn gymaint ail-adrodd stori Manawydan ond awgrymu o bosib tarddiad i'r chwedl. Ni ddisgwyliwn i gynulleidfa ddod i'r perfformiad Manawydan â gwybodaeth drylwyr o 'Manawydan Fab Llŷr' er mwyn cael mwynhad. Gobeithiwn yn hytrach y bydd ein hymchwil fel perfformwyr yn peri awydd i rai droi o'r newydd at yr hen chwedl a'i hail ddarganfod.

Mae Brith Gof a Chwmni Cyfri Tri yn unfryd yn eu cred fod yna bosibilrwydd unigryw o greu theatr angerddol Gymreig sy'n cyfuno arddull weledol a chorfforol â thraddodiadau barddonol a cherddorol. Dyma'r cyfle cyntaf i weld y ddau gwmni arbrofol hyn ar y cyd mewn perfformiad ffurfiol, ar ôl dwy flynedd o waith eang ac amrywiol, gan gynnwys BRANWEN yng Nghastell Harlech, TONI A CLIO A'U HACORDIONION ar strydoedd Cymru, RHOSYS COCHION mis nos ym mhentrefi Ceredigion, Y SIPSI HET DDU ar daith eang i ysgolion cynradd, GAEAF-DAITH adeg y Nadolig yn Llangeitho, yn ogystal â'r sioeau ffurfiol GWRACHOD Y MÔR, CAERDROIA, a RHIANNON.

Da yw gweld wythnos gyfan o theatr Gymraeg yn Chapter a gobeithir y bydd Cymry Caerdydd a'r cylch yn cefnogi'r achlysur hwn. Rhaid bod yn aelod o Chapter er mwyn gweld perfformiad yno. Mae yna drefniadau ymaelodaeth arbennig ar gyfer partion; am fanylion cysylltwch â Chapter (Ffôn: 396061). Tocynnau: Mawrth, £1.50; Mercher i Sadwrn, £1.70.


URDD GOBAITH CYMRU

CÔR CANOLFAN
**CAERDYDD**

*ARWEINYDD: Islwyn Evans*

**Y GREADIGAETH**
**(HAYDN)**

*UNAWDWYR: Wendy Griffiths (Soprano)*
*Geraint Roberts (Tenor)*
*Richard Rees (Bas)*
*Christopher Powell (Organydd)*

**YN EGLWYS EBENESER**
HEOL SIARL - CAERDYDD

**NOS SADWRN, EBRILL 3ydd 1982**
**7.30p.m. PRIS £1.50**




# MA'NA GANOLFAN

CANOLFAN FASNACHOL-TECHNOLEGOL I GYMRU

Mae llawer blwyddyn wedi mynd heibio ers cychwyniad yr ymgyrch bwysig hon. Dechreusom yn gynnar yn y chwedegau a phryd hynny 'roeddym yn meddwl am Ganolfan Gynllunio a Chanolfan Wledig i Gymru yma yn y Brifddinas.

Gwnaethom astudiaeth addysgol hefyd yn gofyn am adrannau graddedig mewn Cynllunio a Goruchwylio Masnach. Tristwch ydyw meddwl fod anghytundeb, a ni'r Cymry wedi codi fwy nag unwaith, er fod ein gwaith yn wirfoddol, gwrthod cefnogaeth wnaeth llawer un. Ond erbyn heddiw mae Bwrdd Datblygu, Bwrdd Gwledig, Canolfan Gynllunio (Eilradd) ac addysg Cynllunio Celfi graddedig wedi dod i Gymru. Credaf yn sicr fod Memoarndwm y diweddar Dr. Idris Jones a gwaith y pwyllgor ymgyrch wedi symbylu hyn.

Byddai cael y ganolfan fel ag addawyd yn Adroddiad 1972, gyda'r awgrymiadau, yn sylfaen rhagorol i ddatblygu gwaith yng Nghymru a gobeithiwn weld hyn yn digwydd yn fuan.

Mewn oes dechnolegol - rhaid wrth yr amodau iawn i gynnal cymdeithas; gobeithiwn weld y cyfryngau torfol yn delio a'r materion hyn ond methu gweld y pwrpas y maent.

Mae lleoliad Caerdydd fel Prifddinas yn cymell sefydliadau cenedlaethol modern i gymell plant i fyd Technoleg Masnach a Diwydiant. Yn anffodus sefydliadau eraill sydd yn cael sylw ac mae cefn gwlad yn ogystal a'r trefi diwydiannol yn colli poblogaeth. Mae gan Caerdydd fel Prifddinas bopeth i'w gynnig i wasanaethu Cymru; rydym yn agos i Lundain; mae prif orsaf awyr yma a hefyd golegau a Phrifysgolion.

Ambrose Williams.

## *CALON LÂN*




**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropëaidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.00**


## *MYFANWY*




**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar restr Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.00.**

**Ar gael oddiwrth werthwr gwin cyfagos. Am eich gwerthwyr agosaf, cysylltwch â Phillip Morgan a'r Fab (tel. isod)**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570



Castell Caerdydd o gyfeiriad Treganna o ysgythrad gan Samuel a Nathaniel Buck, Tua 1740 (Gwasanaeth Archifau Morgannwg, Neuadd y Sir, Parc Cathays).

## AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

1982 - blwyddyn o ddathliadau.

Eleni y mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn dathlu ei phenblwydd yn 75 oed. Derbyniodd ei Siarter Ymgorffori ar Fawrth 19, 1907 ac ers hynny datblygodd yn un o'r amgueddfeydd cenedlaethol mwyaf amrywiol ym Mhrydain. Adlewyrchir hyn yn y nifer o ddathliadau eraill sy'n digwydd eleni, ar wahân i'r 75 penblwydd. Er enghraifft y mae yna:

70 mlynedd er pan osodwyd carreg sylfaen y Prif Adeilad gan y Brenin Edward V11, a phan drosglwyddwyd cynnwys amgueddfa fwrdeistrefol Caerdydd, Amgueddfa Hanes Naturiaethol Celf a Hynafiaethau Cymru, i feddiant yr Amgueddfa Genedlaethol i greu cnewyllyn ei chasgliadau.

60 mlynedd er pan agorwyd rhan orllewinol y Brif Neuadd yn y Prif Adeilad.

50 mlynedd er pan ddaeth astudiaethau gwerin yn rhan o waith yr Amgueddfa a phan grewyd is-adran Diwylliant Gwerin a Diwydiannau (yr adran gyntaf o'i bath yn yr Ymerodraeth Brydeinig).

50 mlynedd er pan agorwyd yr Asgell Ddwyreiniol, ynghyd â Darlithfa Reardon Smith a'r Oriel Gron, gan Ddug Caint. Cynrychiola'r Ddarlithfa y rhodd unigol fwyaf a dderbyniodd yr Amgueddfa erioed.

45 mlynedd er pan agorwyd Amgueddfa Caer Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon, y gangen gyntaf yng Ngogledd Cymru.

30 mlynedd er pan drawsnewidiwyd statws y casgliad celf gan gymynrodd Gwendoline Davies.

25 mlynedd er pan ddechreuwyd astudiaethau hanes diwydiannol a phan grewyd yr Adran Diwydiant.

10 mlynedd er pan rhoddodd Cyngor Sir Gaernarfon weithdai Chwarel Dinorwig yn Llanberis i'r Amgueddfa i'w throi yn amgueddfa chwareli Gogledd Cymru.

5 mlynedd er pan agorwyd Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru gan y Prif Weinidog ar y pryd, Y Gwir Anrhydeddus James Callaghan.

5 mlynedd er pan dderbyniwyd yr ail rodd unigol fwyaf - £950,000 - gan y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan tuag at adeiladu Oriel Eryri, yn Llanberis, canolfan i ddehongli amgylchedd cyfoethog Eryri.

Trefnir nifer o ddigwyddiadau yn y Prif Adeilad a'r canghennau i ddathlu'r 75 penblwydd yn ystod gweddill y flwyddyn a cheir manylion amdanynt yn y rhaglen.


HTV CYMRU

**Ymchwilwyr Rhaglenni Teledu**

Yn eisiau yn ein stiwdio yng Nghaerdydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi rhaglenni drwy waith ymchwil a chreu syniadau ar gyfer amrywiaeth o raglenni teledu, gan gynnwys rhaglenni adlonianat ysgafn, rhaglenni plant, rhaglenni cerddorol, ac yn y blaen. Dylai fod yr ymgeiswyr a diddordeb byw yn y Gymru gyfoes, gyda'r gallu i gyfleu syniadau yn ysgrifenedig ac ar lafar, a hynny'n eglur ac yn gyflym. Rhaid wrth ymroddiad i'r cwmni ac i'r cyfrwng, gan y cynigir cyfnod pendant o hyfforddiant trylwyr.

**Dylai'r ymgeiswyr cymwys anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig (nid oes angen stamp) at: Y Rheolwr Staffio, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu. Caerdydd. CF1 9XL.**


## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Chris Grace yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei dad.

Cydymdeimlwn â Mrs. Profit, Elinor Wyn a Marged ar golli priod a thad a oedd mor annwyl ohonynt.

COFIWCH AM Y CYFARFOD CYHOEDDUS. Gweler Tud. 1.






**************************

PRIFYSGOL CYMRU : CANOLFAN DYSGU CYMRAEG I OEDOLION

CWRS HYFFORDDI ATHRAWON (addas ar gyfer y rhai sydd am gymryd dosbarthiadau i oedolion yn yr Hydref).

BOB NOS FAWRTH, 4 Mai, 1982 - 29 Mehefin, 1982

4.00 - 5.30 o'r gloch
Manylion o 6 Gwenith St., Cathays, Ffôn: 390980.

**************************

**************************

MERCHED Y WAWR, Y GARTH,

SIOE FFASIYNAU TRAWIADOL

gan SILVINA

NEUADD BENTREF PENTYRCH,

Gwener, Mawrth 19, 7.30 p.m.

Caws a Gwin. Pris: £2

Tocynnau oddi wrth: Angharad Jones, Ffôn: 811421.

**************************

# Y BRAWD A'R BRODYR

(Ymddangosodd yr erthygl isod gyntaf yn rhifyn 21-27 Tachwedd o'r 'Radio Times'. Fe'i cyhoeddir gyda chaniatad caredig y BBC a Huw Jones).

Magwyd dau frawd ar aelwyd Gymraeg yn awyrgylch y capel yng Nghaerdydd. Daeth un, Huw Jones, yn adnabyddus fel darlledwr a phennaeth cwmni Sain. Yma mae'n sôn am ei frawd Alun a fabwysiadodd y ffydd Gatholig ac sydd yn awr yn fynach. Mae wedi newid ei enw ac fel y Brawd Dewi yr adnabyddir ef bellach.

..........

Bachgen ysgol 13 oed drygionus a bywiog oedd Alun, fy mrawd, pan gafodd droedigaeth grefyddol yn 1967. Chafwyd fawr o rybudd, ac mi roedd o braidd yn ifanc, ond doedd argyhoeddiad crefyddol ddim yn beth hollol newydd yn ein teulu ni. Mater arall oedd y llwybr a ddilynodd Alun wedyn, llwybr a'i harweiniodd at yr Eglwys Gatholig yn gyntaf ac yn y pen draw at fywyd mynach yn Urdd fwyaf caeedig a llym ei disgyblaeth, yr Eglwys honno, sef y Carthiwsiaid, gyda'u pwyslais ar unigedd a distawrwydd.

Ers pum mlynedd bellach, mae'n aelod o gymdeithas fechan Selignac, yng nghanolbarth Ffrainc, hanner ffordd rhwng Lyon a Geneva, ardal lle mae bryniau coediog a hafnau dyfnion yr afon Ain yn paratoi'r teithiwr ar gyfer ymchwydd mawreddog yr Alpau ryw 40 milltir i'r Dwyrain, a lle mae'r cymoedd culion yn cynnig cartref naturiol i gymdeithas o feudwyon.

Y distawrwydd sy'n taro'r ymwelydd gyntaf wrth i atsain cloch y drws dawelu a'ch gadael ar y tu allan yn gobeithio fod rhywun wedi eich clywed. Mae'r neges garedig ond awgrymog ger y drws - 'Les moines prient pour vous dans le silence. Ils vous demandent en retour de respecter leur solitude. Ne pas sonner inutilement' (Mae'r mynachod yn gweddio trosoch mewn distawrwydd. Gofynnant i chwithau barchu eu hunigedd. Peidiwch â chanu'r gloch yn ddianghenraid) - yn gwneud i rywun feddwl ddwywaith ynglŷn â phwrpas ei ymweliad. Ond ar ôl ychydig funudau, mae'r croeso a dderbynir gan Dom Bernard, y 'Procureur', sef y mynach hwnnw sydd â'r cyfrifoldeb am holl ymwneud y Tŷ â'r byd allanol, yn ddidwyll a chynnes, os ydyw hefyd yn amlygu'r swildod hwnnw sy'n nodweddu bron bob un o'r mynachod. Rhaid bwyta'n gyntaf - bwyd syml, ond mwy na digon ohono: wyau, llysiau o bob math, ffrwythau, ynghyd â photel o win a dewis o 'Chartreuse' gwyrdd a melyn, oherwydd y liqueur melys yma, mor anyfadwy o gryf gen i, yw prif gynhaliaeth ariannol yr Urdd i gyd, gyda'r fformiwla gyfrinachol yn cael ei chadw gan y distyll-wyr yn y brif fynachlog - la Grande Chartreuse. Caf weld yn ddiweddarach mai ymborth arbennig ymwelydd yw hwn, ac nad yw'r Radau a'r Brodyr mor hael o'r hanner gyda'u bwyd beunydd=iol eu hunain.

Oes, mae 'na groeso, oherwydd fy nheulu a minnau sy'n cael talu'r ymweliad blynyddol ag Alun eleni. Gan mai y tu mewn i'r waliau hyn neu rai tebyg y bydd bellach yn treulio ei oes, dim ond y llythyr misol a'r tri diwrnod y flwyddyn o ymweliad gan y teulu agosaf sy'n cadw'r cysyll-tiad brau â'r byd allanol. Yn ystod y tridiau hyn, fodd bynnag, does dim llyffethair ar y sgwrs, ac ond iddo ufuddhau i alwad rheolaidd y gloch i'r gwasanaethau, caiff fod am gyfnod byr yn rhan o'i deulu bydol unwaith eto.

Nid yw merched yn cael mynd y tu mewn i'r waliau di-ffenestr, felly fe fydd Dom David (Dewi), i roi ei enw mynachaidd iddo, yn cyfarfod â Sian a Siwan yn yr annedd-dy allanol a gedwir ar gyfer ymwelwyr.

Fe gaiff Owain, y mab, y cyfle yn nes ymlaen i fynd gyda mi i'r oriel i wrando ar yr offeren, a rhyfeddu at siant Gregoraidd hynafol ddiharmoni'r teulu bach o ryw 26 o Dadau a Brodyr yn codi ac yn chwyddo dan do uchel yr eglwys fechan, fel y mae wedi atseinio o gwmpas yr un adeilad dair gwaith y dydd ers 1212.


Sut mae o o ran ei olwg? Wel, yn reit dda, a dweud y y gwir. Ar wahan i'r pen moel yna, sydd yn cymryd tipyn o amser i arfer hefo fo, mae o wedi llenwi allan rhyw gymaint, a rhaid dweud mai fo yw'r un sy'n byrlymu o fan-siarad a minnau, ar y dechrau o leiaf, yn hunan-ymwybodol a thawedog. Yn nes ymlaen, caf glywed am ei fywyd dyddiol - y codi am hanner nos, dwy, tair neu bedair awr mewn gweddi a mawl, codi eto ar gyfer gwasan-aeth boreol saith o'r gloch, yr oriau o astudio Dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig, heb ryddid (nac awydd) i wyro o lwybr cul yr Athrawiaeth honno i borfeydd meddyliol eraill; y dŵr a'r bara sych bob bore a'r pryd syml gyda'r hwyr; yr ymprydio mynych; y gell unig, gyda'i gardd fechan a'i gweithdy (segur, yn ei achos ef - tydio fawr o saer!); yr awr bob wythnos pryd caniateir ymddiddan â'r mynaich eraill. A'r distawrwydd - sy'n gafael ynoch ac yn eich dychryn gyda'i rym,ac yn gwneud i'r meidrolyn roi ochenaid o ryddhad wrth ddianc rhagddo.

I beth? - 'I weddio dros y byd, tra mae'r byd yn cysgu, yn anghofio Duw.' 'Calon bur yr Eglwys, yn tynnu Duw a Dyn ynghyd.' Ie, ond...Ond, ar ddiwedd y tridiau, mi wn, fel dwy flynedd yn ôl, na waeth heb â dadlau. Mae'r sicrwydd diysgog sy'n eiddo iddo, hyd yn oed os na fedraf ei rannu, i'w ryfeddu ato a'i barchu, ac i'w gadw'n fyw yn y cof fel llinyn mesur a gwrthbwynt fy naliadau a'm amheuon innau tan yr ymweliad nesaf - ymhen dwy flynedd arall.

---

Pob dymuniad da i Mr. Gwilym Owen a'i deulu sydd yn mudo yn fuan i Ddwyran Sir Fôn.
Apwyntiwyd Mr. Owen yn Reolwr Banc y Midland yn nhre Caernarfon.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 21



## Ar Draws

1. Nid Caleb sydd yn gwneud llanast o ddillad y gwely (8)
5. Gyrrodd O.M. ataf ryw lun o stesion Trawsfynydd(6)
9. Rhoi us o fewn i'r esgid ddi-siap i ganiatau absenoldeb (8)
10. Cwerylgar, ac yn creu annhrefn ynglŷn â Sianel Cymru (6)
11. Y maent yn brwydro (8)
12. Rhai didrefn o Flaen-nedd yw'r merched hyn (6)
14. Mae'n siwr fod un o'r rhain yn Culverhouse Cross (10)
18. Daw cryf du i gynllwyno yn slei (10)
22. Rhwng cylch â phedol, dyna a gewch yn y ffwrneisi hyn (6)
23. Mae peth adfynegi yng ngwaith y bugail a drodd yn fardd (8)
24. Dic Aberdaron er enghraifft? (8)
25. Un o'r deg! (8)
26. Fe fu'r sen yn fy ngwneud yn ofnus braidd(6)
27. Plethiad o ddrain du a roes harddwch! (8)

## I Lawr

1. Gwelltyn (6)
2. O hwn y ceir cwmpas(6)
3. Bydd chwilio dyfal am hon ar ôl pob trychineb awyrennol (4,2)
4. Dadelfennir y cyfan yn adroddiad N.S. (10)
6. Nodwedd y weddw yn nechrau Luc xviii (8)
7. Treng-udo? megis y gwnaeth Gray yn Stoke Poges, a Gruffydd ab yr Ynad Goch yng Ngwynedd (8)
8. Mae Adda'n sori am gymysgu gair lliwgar (8)
13. Ewigod gwyllt (cant ohonynt!) oedd yn y fforestydd (10)
15. Rhai sy'n chwarae cast (8)
16. Chwyther anadl einioes eto (8)
17. Setlo (8)
19. Lle caeth, ond nid i gadw dau gar (6)
20. Gwyrai fel hen wr (6)
21. Mae hi'n bosib i ddau uned wneud addewid (6)


**************************

GWERSI FFIDIL TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

gan aelod o Gerddorfa Symffoni Gymreig y B.B.C.

Ffôn: Caerdydd 751469

**************************


? ? ?

Oes sail i'r si fod y Parch Cynwil Williams wedi mynd i wlad Groeg i drefnu "ffri transffyr" i Mr. Moelwyn Preece ar ei newydd wedd i Eglwys Uniongred Groeg?

COFIWCH AM Y CYFARFOD CYHOEDDUS, Gweler Tud. 1.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL


DATRYSIAD CROESAIR RHIF 20

Ar Draws:
8. CADARNLE; 9. ARABEDD; 10. ASEN; 11. CANOLBWYNT; 12. DRYLLIO; 14. MARCHNATA; 15. AFROSGO; 17. ANOBAITH; 20. AMDDIFADU; 22. DAGRAU; 23. HUNANOLDEB; 24. PIOD; 25. GWROLI; 26. ENEINIAD

I Lawr:
1. MAESTREF; 2. DAFN; 3. CNOCIO; 4. DEINAMO; 5. DAIL PREN; 6. DAUWYNEBOG; 7. GENNYT; 13. LLUOSILL-AFOG; 16. GWAHODDIR; 18. IGAM-OGAM; 19. HUODLEDD; 21. MEUDWY; 22. DIBOEN; 24. PANT

Llongyfarchiadau i Paul a Gaynor Jones, Rhiwbeina, ar enedigaeth Rhodri, brawd i Rhys ac ŵyr arall i Mr. a Mrs. W.J. Jones.

Llongyfarchiadau i Iola (Gregory gynt) a Bob Blyth ar enedigaeth eu merch fach, chwaer i Angharad.

DALIER SYLW :

Mae newid yn nyddiad EISTEDDFOD Y DYSGWYR. Fe'i cynhelir yn awr ar y nos Wener, yr ail o Ebrill yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, ac yn dechrau am 7 o'r gloch. Mae croeso cynnes i bawb.


Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd

Argraffwyd gan Fingerprints(TU), 56 Mackintosh Place, Caerdydd